Pwyllgor Cynaliadwyedd

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

20 Tachwedd 2007

Annwyl Gyfaill,

YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYNALIADWYEDD I OSTWNG CARBON YNG NGHYMRU: GOSTWNG CARBON GAN DDIWYDIANT A CHYRFF CYHOEDDUS

Mae Pwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i Ostwng Carbon yng Nghymru.

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad yw:

> Craffu ar gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfrannu tuag at dargedau gostwng carbon y Deyrnas Gyfunol a'i bwriad i ateb y targed gostwng carbon o 3% bob blwyddyn yng Nghymru, a nodwyd yn nogfen Cymru'n Un.

Mae'r ymchwiliad wedi'i rannu i'r meysydd pwnc canlynol:

- Gostwng carbon yn ein cartrefi
- Gostwng carbon gan drafnidiaeth
- Gostwng carbon gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus
- Gostwng carbon o gynhyrchu trydan (yn cynnwys ynni adnewyddadwy)
- Rheolaeth a defnydd o dir gwledig a gostwng carbon
- Rhan y system gynllunio i ostwng carbon

Bydd ymgynghoriadau ysgrifenedig yn cael eu gwneud ar gychwyn pob maes pwnc ac mae'r ddau ymgynghoriad cyntaf ar ben bellach.

Mae'r Pwyllgor yn awr yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig i'w drydydd maes pwnc, sef gostwng carbon gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus – ac mae'n awyddus i gasglu barn eich sefydliad chi ar y cwestiynau yn yr holiadur amgaeedig.

Buaswn yn ddiolchgar iawn pe gallech gyflwyno unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig erbyn **dydd Llun, Ionawr 28, 2008** i Virginia Hawkins, Clerc y Pwyllgor, yn:

pwyllgor cynaliadwyedd@Wales.gsi.gov.uk

Dylid anfon copïau papur i'r cyfeiriad uchod.

Bydd galwadau am dystiolaeth ar feysydd pwnc dilynol yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd â sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor.

Mae rhagor o wybodaeth am ymchwiliad y Pwyllgor i ostwng carbon i'w chael ar dudalennau'r Pwyllgor ar y we yn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third-assem/bus-committees-third-sc-home.htm

Yr eiddoch yn gywir

Mick Bates

Mick Bates
Cadeirydd, Pwyllgor Cynaliadwyedd

CO2 Cwestiynau'r Ymgynghoriad (Diwydiant a Chyrff Cyhoeddus)

Dyma'r trydydd ymgynghoriad mewn cyfres o ymgynghoriadau a fydd yn sail i drafodaeth gan Bwyllgor Cynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym maes gostwng carbon.

Ni fydd pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad o angenrheidrwydd yn berthnasol i'r holl ymgyngoreion. Atebwch y cwestiynau yr ydych yn teimlo sy'n berthnasol i chi.

Cwestiynau cyffredinol

1. A yw'r targed arfaethedig i ostwng allyriadau carbon 3 y cant y flwyddyn erbyn 2011 'mewn meysydd lle mae'r pwerau wedi'u datganoli' yn ddigonol i sicrhau bod Cymru'n cyfrannu'n llawn at y gwaith o gyflawni targedau'r DU? Os na, pa dargedau a ddylid eu pennu?
2. A ddylid seilio'r targed i ostwng allyriadau ar yr ynni a ddefnyddir gan Gymru, yr ynni a gynhyrchir ganddi, neu'r ddau (h.y. a ddylai ystyried y carbon deuocsid a gynhyrchir yng Nghymru, neu'r allyriadau carbon deuocsid y mae dinasyddion Cymru'n gyfrifol amdanynt, beth bynnag fo'r tarddiad)?

Cwestiynau penodol am allyriadau carbon deuocsid gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus:

3. Pa heriau penodol mae Cymru'n eu hwynebu i ostwng allyriadau carbon deuocsid gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus, a sut y gellir goresgyn yr heriau hyn?
4. A yw polisïau datblygu economaidd cyfredol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi digon o bwyslais ar ostwng lefelau carbon?
5. I ba raddau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn llwyddiannus i ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i ostwng allyriadau carbon deuocsid gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus?
6. A allai targedu gwahanol ar gyfer adnoddau ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru arwain at fwy o ostwng allyriadau gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus na sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd? Os felly, ble allai adnoddau ychwanegol arwain at yr effaith mwyaf? (Rhowch fanylion i ategu'ch tystiolaeth os gwelwch yn dda).
7. Pa ddulliau eraill a ddefnyddiwyd gan weinyddiaethau eraill (y gweinyddiaethau datganoledig, y Deyrnas Gyfunol, gwledydd eraill), i ostwng

allyriadau carbon deuocsid a ryddheir gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus, y byddai modd eu mabwysiadu yng Nghymru o dan y pwerau presennol?

8. Yng nghyd-destun Deddf Llywodraeth Cymru 2006, pa ddulliau eraill o ostwng y carbon deuocsid a ryddheir gan ddiwydiant a chyrff cyhoeddus y byddai modd eu cyflawni *dim ond* pe bai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael pwerau deddfu ychwanegol?
9. Os bwriedir pennu targedau allyriadau carbon deuocsid i Gymru, a ddylid rhannu'r targedau hynny fesul sector? Os felly, pa gyfran o'r gostyngiadau ddylai ddeillio o gartrefi?
10. Sut fydd yr Ymrwymiad i Ostwng Carbon yn effeithio ar eich busnes chi? A ddylai'r Ymrwymiad arfaethedig gael ei addasu mewn unrhyw fodd?

Dalier sylw

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, gall eich ymateb ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth atodol i adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth y mae'n ystyried sy'n wybodaeth bersonol.

Pe digwydd cais am wybodaeth a gyflwynir o dan ddeddfwriaeth y DG, efallai y bydd yn angenrheidiol datgelu'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu. Gall hyn gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i thynnu allan gan y Cynulliad Cenedlaethol rhag ei chyhoeddi.

Os ydych chi'n darparu unrhyw wybodaeth, ar wahân i wybodaeth bersonol, yr ydych chi'n teimlo nad yw'n addas ei datgelu'n gyhoeddus, dylech chi nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi, a rhoi rhesymau i gefnogi hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.